Cyngor Cymuned Llanfrothen
**COFNODION CYFARFODTACHWEDD2019**
4 Tachwedd 2019 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

## 1. Presennol

Dafydd Watts, Rhydwen Roberts, Nia Povey, Glyn Griffiths, Llio Griffiths

Clerc: Huw Rowlands

Ymddiheuriadau: Richard Jones, Nyfain Wynn, Gareth Thomas

## 2. Datgan Diddordeb

Dim

## 3. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 2 Medi 2019

## 4. Materion yn codi o'r cofnodion

### 4.1 Materion Ymddirieolaeth Portmeirion

Mynychodd Frances Steer a Richard Jones-Perrott o gwmni Balfours, cynrychiolwyr Ymddiriedolaeth Portmeirion.

Trafodwyd nifer o faterion gan gynnwys y canlynol:-

- Ynni Hydro – mae'r Ymddiriedolwyr yn cytuno mewn egwyddor i rannu peth incwm o'r cynllun Hydro efo'r gymuned. Fodd bynnag, ni ellir cytuno ar y ganran tan fod costau terfynol y cynllujn yn wybyddus. Bydd hi'n 2-3 mis arall cyn bod yr holl fanylion yn wybyddus.
- Biomas Croesor – mae cais grant wedi ei ddanfon, ac fe ddisgwylir yn awr i weld a fydd hwnnw yn llwyddiannus. Mae cynlluniau am 2 gynllun biomas arall yn y dyfodol, ond rhaid cael cymorth grant yn gyntaf.
- Mae bwriad i drafod efo Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn gweld a fydd angen ffordd newydd er myn hwyluso casglu coed.
- Tai – mae rhai cannoedd o filoedd wedi eu gwario ar wella ac atgyweirio tai'r ystad yn ddiweddar. Mae llawer o'r arian wedi

mynd at ddarparu golau egni isel, ffenestri UPVC a'r bwriad yn yr hir dymor fyddai dileu tanwydd ffosil.  Byddai'r Ymddiriedolwyr yn hoffi comisiynu asesiad carbon, er mwyn ceisio dod yn garbon niwtral yn y dyfodol

- Trafodwyd cael yr Ymddiriedolaeth i osod cysgodfan fws, ac roeddynt yn fodlon i'r tir dros y ffordd i'r Ring gael ei ddefnyddio. Credir mai'r ystad sydd berchen y tir – ond bwriedir cadarnhau hyn.
- Gofynnwyd a fyddai'r Ymddiriedolaeth yn fodlon gadael i gerddwyr ddefnyddio'r ffordd gerdded sydd yn mynd o amgylch y gofgolofn yn y pentref. Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd i wirio mai y nhw sydd berchen y tir, ond mewn egwyddor maent yn hapus i gefnogi cynlluniau'r cyngor cymuned, dim ond fod disgwyliad mai'r cyngor cymuned fyddai'n gyrru popeth ymlaen.
- Yn ddiweddar, sefydlodd yr Ymddiriedolaeth is-bwyllgor er mwyn hybu adnabyddiaeth o'r hyn y mae'r Ymddireidolaeth yn ei wneud. Mae'r Ymddiriedolaeth yn hapus i gydweithio ar unrhyw waith i hyrwyddo'r ardal.
- Mae maes parcio Brondanw bron wedi ei orffen.Bydd byrddau dehongli yn cael eu gosod yno, a pheiriant talu, ond bydd hi'n bosibl ad-hawlio'r ffi os y prynir bwyd neu ddiod yng nghaffi Brondanw.
- Bydd coed y Goedlan Coed Castanwydden yn cael eu torri a'u hail blannu yn ystod y gaeaf.  Cytunwyd y dylid rhoi nodyn ar hysbysfwrdd y siop a/neu'r wefan i egluro pam fo hyn yn gorfod digwydd
- Mae prosiect i adnewyddu Parc Newydd wedi dechrau.  Bydd yn cymryd rhyw 5/6 mis, gan obeithio y bydd yr eiddo yn barod i'w osod fel un tŷ tua Mehefin/Gorffennaf 2020.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn edrych am wirfoddolwyr i weithio yn y gerddi, a byddent yn croesawu unrhyw un sydd â diddordeb

Diolchwyd i gynrychiolwyr Ymddireidolaeth Portmeirion am fynychu. Bydd cyfarfod nesaf yr Ymddiridedolwyr ym Mhortmeirion ar 10 Rhagfyr, a gobeithir y bydd cynrychiolwyr o'r cyngor cymuned yn mynd I hwnnw

### 4.2 Mynwent Tan Lan

Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi cytuno i gael cyfarofd cychwynnol ym mynwnet Tan Lan er mwyn trafod oblygiadau cynllunio unrhyw ddiwygiadau i'r fynwent.

Cytunodd y Cynghorydd Glyn Griffiths a Dafydd Watts i fynychu'r cyfarfod.

Bu trafodaeth yng nghyfarofd mis Medi ar yr angen i gynghorau cymuned asesu risg unrhyw goed y neu cyfrifoldeb. Yr unig goed sydd ym meddiant cyngor cymuned Llanfrothen yw rhai yn y fynwent. Cytunwyd y dylid ychwanegu'r rhain i'r asesiad risg.

## 4.3 Y Ganolfan, Llanfrothen

Mae angen datrysiad tymor hir i reolaeth a'r defnydd a wneir o'r Ganolfan. Mae' n rhaid i'r cyngor cymuned dalu treth annomestig ac mae hwnnw'n ddrud.

Cytunwyd y dylid galw cyfarfod rhwng y cyngor cymuned, swyddog o Gyngor Gwynedd a chynrychiolydd o Mantell Gwynedd, er mwyn gweld pa opsiynau fyddai'n bosibl o ran gwneud cais am grantiau a chael preswyliwr na fyddai'n gorfod talu'r treth annomestig.

## 4.4 Panel Anibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Cytunodd pob aelod oedd yn bresennol nad oeddynt am dderbyn cydnabyddiaeth ariannol 2019/20.

## 4.5 13 Garreg Frech

Bu'r Clerc yn gohebu efo'r Cynghorydd Gareth Thomas, er mwyn ceisio cael diweddariad ar y camau y mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn eu cymryd parthed y mater yma. Mae'r Cynghordyd Gareth Thomas i gyfarfod efo Pennaeth yr Adran Eiddo er mwyn trafod y ffordd ymlaen, ond hyd yn hyn does dim wedi digwydd.

Mynegwyd cryn rwystredigaeth am ddiffyg ymateb a gweithrediad gan Gyngor Gwynedd parthed y mater hwn, a gofynnwyd I'r Clerc ymholi ymhellach am ymateb.

### 4.6 Goryrru Llanfrothen

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu eto at Gyngor Gwynedd er mwyn trefnu ail gyfarfod rhyngddynt â'r Cynghorydd Llio Griffiths

### 4.7 Bioamrwyiaeth - Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'n rhaid i gynghorau cymuned gydymffurfio efo dyletswydd adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae hyn yn golygu ceisio cynnal a gwella bioamrwyaieth cyn belled ag y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol.

Dylai'r dyletswydd fod yn gymesur â maint a swyddogaethau'r sefydliad. Dylid edrych a fedr bioamrwyaieth gael ei gynnal a'i wella drwy gael polisi cynaliadwyedd, hyfforddiant, rhannu arferion da ag eraill.

Mae angen ail ystyried a diweddaru'r polisi bob tair blynedd.

### 4.8 Llogi'r Ganolfan ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2019

Cytunwyd i Gyngor Gwynedd gael defnyddio'r Ganolfan ar gyfer yr etholiad, ond y dylid codi'r ffi i £120 oherwydd bydd gwariant ychwanegol ar wres gan fod yr etholiad yn cael ei gynnal ym mis Rhagfyr.

### 4.9 Cyfethol Aelod

Derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad gan y Cynghroydd Ifor Jones.

Yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Ifor Jones, mae angen cyfethol aelod arall yn ei le. Eglurodd y Clerc fod yn rhaid yn gyntaf gosod hysbyseb yn lleol yn rhoi cyfle i etholwyr lleol ofyn am etholiad. Os nad oedd ymateb i'r hysbyseb hwnnw, yna y cam nesaf fyddai gosod hysbyseb arall yn gwahodd unrhyw un oedd â diddordeb i gael eu cyfethol i roi gwybod i'r Clerc.

Y gobaith wedyn yw y byddai'n bosibl ystyried yr enwau ddaeth i law a chyfethol aelod newydd yn fuan.

### 4.10 Ymgynghoriad BT ar ddileu ffonau talu cyhoeddus

Mae BT wrthi'n ymgynghori ar gau cisogau nad sydd yn cael llawer o ddefnydd.  Nid yw ciosgau gwledig sydd mewn ardal ble na ellir cael signal ffôn symudol. Nid oes bwriad felly i gau ciosg Croesor.

Lleoliad y ddau giosg agosaf i Lanfrothen sy'n ffurfio rhan o'r ymgynghoriad yw ym Mhenrhyndeudraeth a Garndolbenmaen.

## 5. Gohebiaeth

Cafwyd amrywiol ohebiaeth gan Gyngor Gwynedd parthed cau ffyrdd yn lleol er mwyn eu hail wynebu.

## 6. Materion Ariannol

**6.1** Cyflog a chostau Clerc, Medi a Hydref 2019 £214.00 x 2, £53.40 TWE X 2

**6.2** Anfoneb Scottish Power 2019 £27.44 – talwyd gan y Clerc

**6.3** Anfoneb Cyngor Gwynedd Archwilio Menwol £186.00

**6.4** Dunn & Ellis Anfoneb TAW tan Medi 2019 - £54.00

**6.5** Anfoneb torri gwair mynwent Tan Lan 2019 - £1980.  Gofynnwyd am fanylion y toriadau.

Cytunwyd y dylid rhoi rhif siec ar bob anfoneb a dalwyd, a bod y rhai wnaeth lofnodi'r siec yn llofnodi'r anfoneb yn ogystal.

## 7. Ceisiadau Cynllunio

Cais Cynllunio C19/0953/95/HT, gosod mast cyfathrebu ar ran EE ar iochr y B34410 yn Llanfrothen ger fferm Ffridd Fawr.  Dim gwrthwynebiad.

Trafodwyd y cynllun dirprwyo i benderfynu ar geisiadau cynllunio, pan fod angen penderfynu ar geisiadau cynllunio rhwng cyfarfodydd.  Y cytundeb oedd mai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fyddai'n penderfynu, ond roedd angen cytuno ar y drefn ble roedd y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn adnabod neu efo buddiant mewn unrhyw gais cynllunio, ac felly'n methu gwneud penderfyniad.

Cytunwyd y dylid dirprwyo'r penderfyniad wedyn yn ôl cyfenw y cynghorwyr eraill, yn nhrefn yr wyddor.

## 8. Materion Eraill

### 8.1 Ymateb i lythyr Swyddfa Archwilio Cymru 18 Hydref 2019

Penderfynwyd cynnal cyfarfod ar 18 Tachwedd 2019 er mwyn trafod ymateb y cyngor cymuned i lythyr Swyddfa Archwilio Cymru dyddiedig 18 Hydref 2019.

Cytunwyd mewn egwyddor i brynu polisïau llywodraethol gan Un Llais Cymru.

### 8.2 Pafin Morfa Gaseg

Cafwyd llythyr gan un o breswylwyr Morfa Gaseg. Eglurodd y llythyr fod Cyngor Gwynedd wedi gwneud llwybr diogel i blant gerdded i'r ysgol y tu cefn i'r tai sydd yn ystâd Morfa Gaseg, Llanfrothen. Gwrthwynebodd perchnogion rhif 10 Morfa Gaseg hyn, ac fe osodwyd y llwybr gan osgoi rhif 10.

Mae perchnogion newydd yn rhif 10 bellach ac maen nhw'n fodlon i'r llwybr fynd y tu cefn i'w tŷ.

Mae cysylltiad wedi bod efo Cyngor Gwynedd, ond does ganddyn nhw ddim cyllid i orffen y gwaith. Fodd bynnag, bu i Gyngor Gwynedd ddweud y byddent yn fodlon defnyddio unrhwy darmac sbar fyddai ganddynt pe byddai'r cerbyd gwaith yn digwydd mynd heibio.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd gan nodi fod dau waith ail darmacio hyn digwydd yn fuan yn lleol a gofyn a fedrent ddefnyddio tarmac o'r gwaith hynny i gwblhau'r llwybr.

## 9. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Ionawr 6, 2020